Y Bwrdd Taliadau

# Hysbysiad Preifatrwydd

## Adolygiad y Bwrdd Taliadau o Gyflogau Staff Cymorth Aelodau o'r Senedd

Dyddiad

Amserlen adolygu

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cyhoeddi'r polisi:** | 09.12.24 |
| **Amlder adolygu:** | Amherthnasol; mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol i brosiect cyfnod penodol |
| **Dyddiad yr adolygiad diwethaf:** | |
| **Dyddiad yr adolygiad presennol:** | |

### Ein manylion cyswllt

Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ydym ni.  Ni yw rheolydd data'r wybodaeth a roddir gennych, a byddwn yn sicrhau y caiff y wybodaeth hon ei diogelu a'i defnyddio yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

Rydym wedi penodi swyddog diogelu data sy'n gyfrifol am oruchwylio cwestiynau mewn perthynas â'r hysbysiad preifatrwydd hwn.  Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y ffordd yr ydym yn prosesu data personol, neu sut i arfer eich hawliau, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data:

- E-bost: diogelu.data@senedd.cymru
- Post: Tŷ Hywel, Stryd Pierhead, Bae Caerdydd CF99 1SN
- Ffôn: 0300 200 6565

## Sut y bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio?

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ("y Bwrdd") yn gorff annibynnol sy'n gyfrifol am sicrhau bod Aelodau'r Senedd yn cael y taliadau a'r adnoddau priodol sydd ar gael iddynt i gyflawni eu rôl. Mae hyn yn cynnwys pennu cyflogau'r Aelodau yn ogystal â'u lwfansau eraill fel costau staffio a chostau swyddfa.

Bydd y wybodaeth y gofynnir amdani yn y ffurflen hon yn cael ei defnyddio i alluogi'r Bwrdd i gynnal asesiad o effaith unrhyw newidiadau sy'n cael eu hystyried gan y Bwrdd i ddarpariaethau yn y Penderfyniad sy'n ymwneud â staff cymorth ar grwpiau penodol (h.y. asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb).

Er bod llenwi'r ffurflen hon yn ddewisol i staff cymorth, bydd gofyn i'r rhai sy'n dewis ei chwblhau roi manylion eu cyflog a gradd eu swydd. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol er mwyn galluogi'r Bwrdd i asesu effaith newidiadau arfaethedig i raddau swyddi a chyflogau ar grwpiau penodol o staff cymorth. Bydd gan staff cymorth yr opsiwn i beidio ag ateb cwestiynau yn y ffurflen sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig a chefndir economaidd-gymdeithasol, drwy ddewis 'gwell gennyf beidio â dweud' o'r rhestr o atebion amlddewis.

Er nad yw'r arolwg hwn yn gofyn am wybodaeth fyddai'n galluogi rhywun i'ch anabod yn glir, fel eich enw, efallai y bydd modd adnabod unigolion sy'n cwblhau'r arolwg hwn drwy gyfuniad o ymatebion a/neu wybodaeth a ddarperir mewn blychau testun agored.

## Pa wybodaeth rydym yn ei phrosesu?

Mae'r arolwg yn nodi cyfres o gwestiynau sy'n gofyn i unigolion ddarparu gwybodaeth yn ymwneud â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gwybodaeth yn ymwneud â'u cefndir economaidd-gymdeithasol, a gwybodaeth yn ymwneud â'u rôl a'u cyflog presennol.

Gall y wybodaeth hon gynnwys (os ydych yn dewis ei chyflwyno):

- Gwybodaeth yn ymwneud â'ch rhywedd a'ch hunaniaeth o ran rhywedd;
- Gwybodaeth yn ymwneud â'ch hunaniaeth genedlaethol;
- Gwybodaeth yn ymwneud â'ch ethnigrwydd;
- Gwybodaeth yn ymwneud â'ch cyfeiriadedd rhywiol;

- Eich grŵp oedran;
- Gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw anableddau sydd gennych;
- Gwybodaeth yn ymwneud â'ch credoau crefyddol;
- Gwybodaeth yn ymwneud â'ch cefndir economaidd-gymdeithasol;
- Eich teitl swydd, gradd gyflog, a graddfa gyflog; a,
- Gwybodaeth yn ymwneud â cheisiadau am lwfans gweithio gartref.

## Pam rydym yn ei phrosesu?

Mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad llawn o'i Benderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau cyn y Senedd nesaf, sef y Seithfed Senedd, i sicrhau bod Aelodau'r Senedd yn cael eu talu'n briodol a bod cymorth ariannol digonol ar gael iddynt er mwyn cyflawni eu dyletswyddau yn y Senedd yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o ddarpariaethau yn y Penderfyniad sy'n ymwneud â staff cymorth Aelodau a Grwpiau.

## Pwy fydd yn cael mynediad at y wybodaeth?

Bydd gan Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Taliadau (staff Comisiwn y Senedd a gyflogir i gefnogi gwaith y Bwrdd) fynediad at y wybodaeth hon. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn gweithredu i gefnogi gwaith y Bwrdd yn unig. Bydd y wybodaeth a gesglir drwy'r ffurflen hon yn cael ei defnyddio i lywio gwaith y Bwrdd, fel y disgrifir uchod.

Bydd Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd yn defnyddio'r data ymateb crai i'r arolwg i gael gwybodaeth ddienw i nodi nifer y staff cymorth sydd â nodweddion gwarchodedig penodol. Ni fydd y data crai a ddarperir drwy'r arolwg yn cael ei rannu y tu allan i'r Ysgrifenyddiaeth. Bydd y dadansoddiad o'r data dienw hyn wedyn yn cael ei rannu ag aelodau'r Bwrdd ei hun a staff y Comisiwn, y tu allan i'r Ysgrifenyddiaeth, sy'n cefnogi gwaith y Bwrdd yn uniongyrchol.

## A fydd y wybodaeth yn cael ei rhannu â thrydydd partïon, neu'n cael ei chyhoeddi?

Ni fydd ymatebion unigol i'r arolwg hwn yn cael eu cyhoeddi na'u cynnwys mewn adroddiad.

Ni fydd dim o'r wybodaeth grai a ddarperir mewn ymateb i'r arolwg yn cael ei rhannu ag unrhyw drydydd parti, oni bai ei bod yn ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

## Storio, cadw a dileu

Bydd y wybodaeth yn cael ei storio'n ddiogel ar ein systemau TGCh, sy'n cynnwys gwasanaethau cwmwl trydydd parti a ddarperir gan Microsoft. Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio technoleg deallusrwydd artiffisial Microsoft i brosesu eich gwybodaeth. Mae unrhyw drosglwyddo data gan Microsoft y tu allan i'r AEE yn dod o dan gymalau cytundebol lle mae Microsoft yn sicrhau bod data personol yn cael eu trin yn unol â deddfwriaeth ddomestig. I gael rhagor o wybodaeth am sut y bydd Microsoft yn defnyddio eich gwybodaeth, gellir darllen datganiad preifatrwydd y cwmni yma.

Bydd data crai yr arolwg yn cael eu cadw tan gyfnod o ddim mwy na chwe mis ar ôl inni gwblhau'r darn perthnasol o waith, ac amcangyfrifir y bydd hyn yn dod i ben ym mis Mawrth 2025. Ar ôl y cyfnod o chwe mis, byddwn yn cadw gwybodaeth ddienw. Bydd gwybodaeth ddienw yn cael ei chadw hyd at ddiwedd y Chweched Senedd er mwyn helpu i lywio penderfyniadau terfynol y Bwrdd ar newidiadau i ddarpariaethau yn y Penderfyniad sy'n ymwneud â staff cymorth ar gyfer y Seithfed Senedd.

## Y sail gyfreithiol dros brosesu Data Personol

Mae cyfraith diogelu data yn nodi seiliau cyfreithiol amrywiol (neu 'amodau') sy'n caniatáu i ni gasglu, cadw a defnyddio eich gwybodaeth bersonol. At ddibenion prosesu'r data personol a ddarperir gennych, rydym yn dibynnu ar y seiliau cyfreithiol a ganlyn:

**Mae angen prosesu'r data fel rhan o dasg a gyflawnir er budd y cyhoedd**

Y dasg yw hwyluso gwaith y Bwrdd i gyflawni ei weithgareddau sy'n gysylltiedig â phennu'r tâl a'r lwfansau sy'n daladwy i Aelodau o'r Senedd. Mae cwmpas ein gweithgareddau wedi'i amlinellu yn adrannau 20, 22, 24, 53 a 54 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 ac yn ymwneud â gwneud penderfyniadau am y tâl a'r lwfansau a delir i Aelodau o'r Senedd. Rhaid inni weithredu mewn modd agored a thryloyw, yn unol ag adran 2(2)(a) o Fesur 2010.

Yn unol ag adran 2(4) o Fesur 2010, rhaid i ni ymgynghori â'r rheini y mae ein penderfyniadau yn debygol o effeithio arnynt, gan gynnwys Aelodau o'r Senedd, y staff a gyflogir gan yr Aelodau (neu gan grwpiau o Aelodau), yr undebau llafur perthnasol ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol yn ein barn ni.

## Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu Data Categori Arbennig

Mae Erthygl 9(1) o GDPR y DU yn diffinio data personol categori arbennig fel data personol sy'n datgelu tarddiad o ran hil neu ethnigrwydd, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, neu aelodaeth o undeb llafur, a phrosesu data genetig, data

biometrig i adnabod person naturiol yn unigryw, data sy'n ymwneud ag iechyd neu ddata sy'n ymwneud â bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol person naturiol.

Mae'r arolwg yn cynnwys cwestiynau dewisol sy'n gofyn i unigolion pa rai o'r nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sy'n berthnasol iddynt a'u cefndir economaidd-gymdeithasol. Mae rhai o'r meysydd hyn yn gorgyffwrdd â'r categorïau arbennig o ddata personol y mae Erthygl 9 yn rhoi amddiffyniad ychwanegol iddynt. Mae yna hefyd flychau 'testun rhydd' sy'n caniatáu i unigolion gyflwyno gwybodaeth ychwanegol, a all gynnwys data personol categori arbennig.

Caiff unrhyw ddata personol categori arbennig a gyflwynir mewn ymateb i'r arolwg hwn eu prosesu ar y sail bod hynny'n angenrheidiol am resymau sydd er budd sylweddol i'r cyhoedd (fel y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 9(2)(g) o GDPR y DU, a ddarllenir ar y cyd â pharagraffau 6 ac 8 o Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018).

## Rhannu data

Os gwneir cais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth, mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r cyfan neu rywfaint o'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu. Dim ond os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith y byddwn yn gwneud hynny.

## Eich hawliau

Fel testun data, mae gennych nifer o hawliau. Mae'r hawliau sy'n gymwys yn dibynnu ar y seiliau cyfreithiol yr ydym yn dibynnu arnynt i ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol. Ni fydd yr hawliau hynny'n gymwys ym mhob achos, a bydd y Comisiwn yn cadarnhau a yw hynny'n wir ai peidio pan fyddwch yn gwneud cais.

Mae'r hawliau'n cynnwys yr hawl i ofyn am fynediad at eich gwybodaeth bersonol eich hun, a elwir weithiau'n 'gais gwrthrych am wybodaeth'.

Hefyd, mae gennych yr hawl i wneud cais gennym:

- fod unrhyw wybodaeth anghywir sydd gennym amdanoch yn cael ei chywiro (er gwybodaeth, mae gofyn ichi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am unrhyw newidiadau o ran eich gwybodaeth bersonol);
- bod gwybodaeth amdanoch yn cael ei dileu (mewn rhai amgylchiadau);
- ein bod yn rhoi'r gorau i ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol at ddibenion penodol neu mewn rhai amgylchiadau; ac
  i'ch gwybodaeth gael ei rhoi i chi neu drydydd parti mewn fformat cludadwy (eto, mewn amgylchiadau penodol).

Os hoffech arfer unrhyw rai o'r hawliau sydd gennych o dan ddeddfwriaeth diogelu data, gofyn cwestiwn neu wneud cwyn ynghylch sut y defnyddir eich gwybodaeth.

## Cwyno

Gallwch gwyno i'r Swyddog Diogelu Data os ydych yn anfodlon ar sut rydym wedi defnyddio eich data. Mae'r manylion cyswllt ar gael uchod.

Yn dilyn cwyn, os byddwch yn parhau i fod yn anfodlon ar ein hymateb, gallwch hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Cyfeiriad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:**
Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Rhif y llinell gymorth: 0303 123 1113